# Canllawiau ar ddiogelwch ac oes silff bwyd oer wedi'i becynnu dan wactod neu drwy addasu’r atmosffer mewn perthynas â Clostridium botulinum nad yw’n broteolytig – cig eidion, cig oen a phorc ffres oer

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 1 Hydref 2020
Dyddiad cau: 11 Tachwedd 2020

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag adolygiad o ganllawiau arfer gorau ar ddiogelwch ac oes silff bwydwedi'i oeri sydd wedi’i becynnu dan wactod (vacuum packed neu VP) neu drwy addasu’r atmosffer (modified atmosphere neu MAP) mewn perthynas â Clostridium botulinum nad yw’n broteolytig. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am 6 wythnos.

## Pwrpas yr ymgynghoriad

Mae prif ffocws yr adolygiad hwn yn ymwneud ag oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi'u pecynnu dan wactod neu drwy addasu’r atmosffer (Pwynt Ymgynghori A).

Dyma’r pwyntiau ymgynghori:

- **Pwynt ymgynghori A** – I adolygu’r oes silff 10 diwrnod a argymhellir mewn perthynas â chig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP yn yr ystod tymheredd o 3oC i 8oC fel y darperir ar ei gyfer yn y canllawiau hyn.
- **Pwynt ymgynghori B** – I wneud rhai newidiadau i'r canllawiau fel yr argymhellwyd ym mis Ionawr 2020 gan is-gr?p ACMSF ar C. botulinum.
- **Pwynt ymgynghori C** – I ddileu unrhyw gyfeiriadau yn y canllawiau sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd na fydd yn berthnasol mwyach ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.
- **Pwynt ymgynghori D** – I wella hygyrchedd y canllawiau i ddefnyddwyr yn unol â gofynion hygyrchedd cyrff cyhoeddus.

## I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Awdurdodau lleol, cymdeithasau masnach cig, gweithgynhyrchwyr cig a busnesau bwyd sydd â diddordeb mewn cig ffres oer sydd wedi'i becynnu dan wactod neu drwy addasu’r atmosffer.

## Pecyn ymgynghori

PDF
Gweld Adolygiad o'r canllawiau ar C. botulinum – Llythyr yr ymgynghoriad as PDF(Open in a new window) (266.52 KB)

## Gweithio mewn Partneriaeth

Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol y diwydiant mewn perthynas â Phwynt Ymgynghori A – I adolygu'r oes silff 10 diwrnod mewn perthynas â chig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi bod yn destun VP neu MAP yn yr ystod tymheredd o 3oC i 8oC.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y gwaith hwn yn ein datganiad ar y cyd.

## Sut i ymateb

Mae gofyn ymateb erbyn **11 Tachwedd 2020.**

Dylid anfon ymatebion dros e-bost at: meathygiene@food.gov.uk

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.